24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

**Cyfeirnod:** 2997A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2022

Annwyl Eifion

# Asesiad Sicrwydd a Risg – diweddariad ar y cynnydd

Yn dilyn ein cyfarfod gyda'r Grŵp Arwain yn gynharach eleni fe ddwedom ni y byddem yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol ar ein gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi'i wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer:

1. adfer o'r pandemig; a
2. rheoli perfformiad ac ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fe wnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesiad Sicrwydd a Risg (ASR) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

Rydym yn cydnabod bod adferiad y Cyngor o'r pandemig a'i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynd rhagddynt yn barhaus. Mae'r

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

adborth hwn yn darparu diweddariad ar adeg benodol mewn amser fel rhan o'r asesiad sicrwydd a risg o'r cynnydd gyda threfniadau'r Cyngor yn y meysydd hyn.

## 1. Adfer o'r pandemig

### Yr hyn a wnaethom

Trwy gydol pandemig COVID-19 mae Archwilio Cymru wedi parhau i gwrdd â chysylltiadau allweddol y Cyngor yn rheolaidd i wneud gwaith sicrwydd ar ymateb y Cyngor i'r pandemig a darparu adborth mewn amser real ar gyfer y Cyngor.

### Yr hyn a ganfuom

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau hollbwysig a rhoi cymorth ychwanegol i'w gymunedau yn ystod y pandemig. Trwy sefydlu trefn reoli digwyddiad tyngedfennol, roedd yn gallu gwneud penderfyniadau pwysig yn gyflym. Mae ymateb y Cyngor i'r pandemig yn cael ei reoli dros dri cham, sef Cam 1 – Parodrwydd – Cau'r holl wasanaethau nad ydynt yn hanfodol, Cam 2 – Rhoi ar waith – Darparu gwasanaethau dan amodau'r cyfyngiadau symud a'r cam presennol, Cam 3 – Addasu a chydnerthedd hirdymor – sefydlu strategaethau ar gyfer y tymor canolig a hir sy'n adnabod arferion gweithio newydd gan hefyd sicrhau bod gweledigaeth a gwerthoedd craidd y Cyngor yn cael eu hybu.

Mewn ymateb i ofynion cyfreithiol y pandemig i weithio gartref, fe newidiodd niferoedd sylweddol o weithlu ac aelodau etholedig y Cyngor yn gyflym i weithio'n ystwyth.

Mae'r pandemig hefyd wedi cyflymu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer Gweithio'n Ystwyth, gyda'r Cyngor yn cyflwyno trefniadau gweithio Hybrid ar gyfer staff, lle y bo'n briodol. Bydd y ffordd yma o weithio'n hwyluso ymrwymiad i lawer o wasanaethau barhau i gael eu darparu o bell yn y tymor hir. Mae'r pandemig hefyd wedi hybu nifer o newidiadau gweithredol a diwylliannol cadarnhaol megis cydweithwyr yn cydweithio i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ar gyfer dinasyddion a pherthnasoedd wedi'u cryfhau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.

## 2. Rheoli perfformiad a threfniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

### Yr hyn a wnaethom

Fe gynhaliom ni ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2022. Cafodd y dystiolaeth ei chasglu trwy gyfweliadau ac adolygiadau o ddogfennau ac roedd yn tynnu ar ganfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Fe wnaeth ein gwaith fwrw golwg ar y trefniadau rheoli perfformiad newydd y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith yn ogystal â threfniadau y mae'n eu rhoi ar waith i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021). Nid oedd y gwaith yn asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

### Yr hyn a ganfuom

- **Trefniadau ar gyfer Rheoli Perfformiad**

Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei ddull Rheoli Perfformiad gyda phroses busnes, cynllunio a pherfformiad newydd wedi'i lansio yn ystod 2021-22, ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu ei drefniadau ymhellach yn y dyfodol. Y prif feysydd ffocws ar gyfer ei drefniadau rheoli perfformiad wedi'u diweddaru yw: sicrhau eu bod yn ategu'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer gofynion hunanasesu Deddf 2021, ffocws mwy eglur ar ddiffinio a gwahaniaethu amcanion, tasgau a mesurau, integreiddio gweithgarwch rheoli risg fel rhan o'r trefniadau, a datblygu adroddiadau cadarn a mwy gronynnog i ategu ei brosesau penderfynu.

- **Trefniadau ar gyfer Hunanasesu ac Asesiadau Panel**

Mae gan y Cyngor ddull amlinellol ar gyfer cynnal ei hunanasesiad sy'n ofynnol yn ôl Deddf 2021, sy'n seiliedig ar drywyddion ymholi allweddol. Ar adeg ein gwaith ni, roedd y dull ar y cyfan wedi cael ei dderbyn yn gyffredinol gan uwch arweinwyr y Cyngor, ac roedd yn cael ei lunio'n fwy manwl i gael ei gytuno gan Grŵp Arwain ehangach a Chabinet y Cyngor. Mae nifer o nodweddion cadarnhaol i'r dull amlinellol gan gynnwys:

- ennyn ymgysylltiad Aelodau ac Uwch Swyddogion i ddarparu trosolwg a her ar gyfer cerrig milltir hunanasesu allweddol;
- integreiddio â'r fframwaith rheoli perfformiad presennol a meddalwedd cysylltiedig i ategu'r broses cynllunio busnes flynyddol ac adroddiadau ar berfformiad ym Myrddau Perfformiad Chwarterol y Cyngor; ac

- integreiddio'r allbwn hunanasesu â'r broses o adolygu ac adrodd ar gynnydd o ran cyflawni ei Amcanion Llesiant.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynhyrchu allbwn hunanasesu, gyda'r cyntaf o'r rhain yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, ar gyfer blynyddoedd diweddarach mae'n bwriadu newid y dyddiad cyhoeddi i fis Tachwedd bob blwyddyn.

Bydd y penderfyniadau ar gyfer trefniadau ac amseriad yr Asesiad Panel statudol fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf 2021 yn cael eu gwneud gan y weinyddiaeth newydd ar ôl etholiadau mis Mai 2022; fodd bynnag, dynododd y Cyngor ei bod yn debygol y bydd yr asesiad panel yn cael ei gynnal yn 2024.

- **Trefniant ar gyfer y Ddyletswydd Ymgynghori a'r Strategaeth Cyfranogi**

Er bod y Cyngor yn cydnabod yr angen i ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch ei hunanasesiad, dywedodd wrthym mai ei ddull ar gyfer y flwyddyn gyntaf hon fydd defnyddio tystiolaeth o ymgysylltiadau presennol a pheidio â chynnal ymgynghoriad penodol ynghylch yr adroddiad hunanasesu. Wrth ddefnyddio'r dull hwn dylai'r Cyngor ei sicrhau ei hun ei fod wedi cyflawni ei ddyletswydd ymgynghori mewn perthynas â hunanasesiadau a hynny'n llawn.

Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn diwygio'i Bolisi Ymgysylltu, y dywedodd y bydd yn cwmpasu'r dull o ymgynghori ynghylch yr hunanasesiad a'i strategaeth cyfranogi. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan y tîm ymgysylltu y mae'r Cyngor newydd ei sefydlu. Er bod y polisi ar gam rhy gynnar yn ei ddatblygiad i gael ei rannu ar adeg ein hadolygiad ni, mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau'r polisi hwn ar ôl i'r weinyddiaeth newydd gael ei ffurfio.

- **Trefniadau ar gyfer y newidiadau i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio**

Mae cyfansoddiad Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio newydd y Cyngor wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i Bwyllgor Archwilio ac mae'n cynnwys chwe Chynghorydd a thri Aelod Lleyg. Er gwaethaf rhai heriau cynnar o ran denu ymgeiswyr addas, erbyn yr adeg y cynhaliwyd ein hadolygiad ni roedd pob un o'r tri Aelod Lleyg newydd wedi cael eu recriwtio a'u penodi. Roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu cynnal hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau Lleyg newydd cyn etholiadau mis Mai. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn y broses o wneud yr holl newidiadau gofynnol i'w Gyfansoddiad a ysgogwyd gan Ddeddf newydd 2021, ac y gallai wneud newidiadau eraill yn unol â chyfansoddiad enghreifftiol CLlLC.

- **Trefniadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig**

Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ar 25 Ionawr 2022 ar y cyd â phartneriaid statudol eraill, Cyngor Sir Powys, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fe wnaed penderfyniadau statudol allweddol yn y cyfarfod hwn, megis penodi i'r strwythur llywodraethu a chymeradwyo'r Gyllideb.

Mae Cydbwyllgor Canolbarth Cymru wedi cael ei drefnu ar sail strwythur is-bwyllgorau, gyda dau o'r tri maes cyfrifoldeb, Trafnidiaeth Ranbarthol a Datblygu Rhanbarthol yn cael eu cyflawni trwy grwpiau rhanbarthol presennol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) a Bwrdd Twf Canolbarth Cymru. Bydd y trydydd maes cyfrifoldeb 'Cynllunio Rhanbarthol' yn golygu ei bod yn ofynnol sefydlu is-grŵp newydd i reoli'r cyfrifoldebau hyn. Fe wnaeth y Cyngor amlygu'r trydydd maes cyfrifoldeb hwn fel yr un sy'n cyflwyno'r her fwyaf, yn rhannol oherwydd y gwahanol gamau y mae Cynlluniau Datblygu Lleol y partneriaid unigol wedi'u cyrraedd yn eu datblygiad.

Bydd adnoddau i gyflawni cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Corfforedig yn cael eu darparu o blith adnoddau presennol partneriaid, heblaw am benodi rheolwr prosiect llawn-amser tan fis Ebrill 2023.

Mynegodd y Cyngor beth pryder hefyd ynghylch y diffyg eglurder ar hyn o bryd ynglŷn â statws cyfreithiol cytunedig y Cydbwyllgorau Corfforedig ledled Cymru, gyda hyn yn creu risg y bydd TAW a Threth Gorfforaeth yn ddyledus o bosibl ar arian a allai lifo trwy Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda CLILC i geisio datrysiad i hyn.

- **Defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Dywedodd y Cyngor wrthym nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hailasesu unwaith y bydd canllawiau pellach ar y pŵer wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn rhan o'r adborth ar ein gwaith Asesiad Sicrwydd a Risg. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad maes o law ar ddau faes pwnc pellach: lleihau carbon a diweddariad ar gynaliadwyedd ariannol. Bwriedir cyflwyno adroddiadau ar y gwaith yn y ddau faes yma yn haf 2022.

Hoffwch achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am y gefnogaeth barhaus yr ydych yn ei rhoi i'n galluogi i wneud ein gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n gadarnhaol gyda chi yn y dyfodol.

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Non Jenkins
**Rheolwr Archwilio**